# CYNGOR CYMUNED LLANWINIO COMMUNITY COUNCIL

Cynhaliwyd cyfarfod o Gyngor Cymuned Llanwinio ar nos Fercher 15fed o Ionawr 2020 am 8.00yh yn Neuadd Gymuned Llanwinio.

**PRESENNOL :**Cyng. J Phillips, P Walton, W Evans, H James, D Lewis, J Lewis (CSC) and K Bowen (clerc)

**YMDDIHEURIADAU:** Cyng. R Gallie and G Evans

**COFNODION:** Darllenwyd cofnodion cyfarfod Tachwedd 20fed a derbyniwyd hwy yn gywir.

**DATGANIADAU O DDIDDORDEB:**

J Lewis (CSC) – Eitem 11 Cais cynllunio

H James – Eitem 7 Penderfynu rhent tir Cyngor 2021/2022

**MATERION YN CODI:**

Mae gwefan y Cyngor yn y broses o gael ei diweddaru i gydymffurfio a rheolau hygyrchedd newydd.

Mae kiosk Blaenwaun wedi ei brynu oddiwrth BT. Disgwyl i'r offer teliffon gael ei gymryd allan.

**PRAESEPT:**

Cymeradwyodd y Cyngor y dylai'r praesept am 2020/21 aros yn £8000.00

**ARCHWILIWR MEWNOL**:

Cymeradwyodd y Cyngor estyn gwahoddiad i R Davies i ymgymryd at yr archwiliad mewnol am 2019/20.

**RHENT TIR CYNGOR:**

Cymeradwyodd y Cyngor y dylai rhent tir cyngor aros yn £50.00 yr erw am 2021/22.

**GOHEBIAETH:**

Hysbysodd Llywodraeth Cymru y Cyngor taw y swm priodol am gyfer rhan 137(4)(a) o Deddf Llywodraeth Leol 1972 i Gynghorau Cymuned am 2020/21 yw £8.32 yr etholwr.

Gwahoddodd CSC gynghorau cymuned i fynychu cyfarfodydd archwilio fel arsyllwir ac i awgrymu eitemau i drafod mewn cyfarodydd yn y dyfodol.

**DERBYNIADAU:**

| | |
|---|---|
| Watkins Partnership – rhent tir cyngor | £71.92 |
| GVO Wind No. 24 – lles cymunedol | £2836.00 |
| CCC – praesept 3ydd rhan | £2666.67 |

**BILIAU:**

| | |
|---|---|
| VisionICT – uwchraddio'r wefan taliad 1af | £579.00 |
| BT Payphones – prynu kiosk Blaenwaun | £1.00 |

**CYNLLUNIO:**

W/39978 – Ymestyn llwybr presennol a creu pont dros nant i wella mynediad i Cwmcoch, Trecyrn road, Blaenwaun SA34 0DR. – CYNLLUNIO LLAWN.

**U.F.A.**

Hysbysodd Cyng J Lewis (CSC) y Cyngor o'r ymgynghoraid cyllid oedd yn cymryd lle a anogodd cynghorwyr i roddi eu barn.Hefyd fe ddywedodd ei bod yn ceisio trefnu cyfarfodydd pellach efo Open Reach i sicrhau fod band eang cyson ar gael trwy'r ward etholiadol.

Gan fod na ddim rhagor o fusnes diolchodd y Gadair i bawb oedd wedi mynychu a datganodd fod y cyfarfod wedi cau.

**Fe fydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar nos Fercher 18fed o Fawrth 2020 am 8.00yh yn Neuadd Gymuned Llanwinio.**